



**Polisi'r Gymraeg**

**Welsh Language  
Policy**

## Cyflwyniad

Mae ScoutsCymru yn cydnabod y ffaith bod gan yr iaith Gymraeg statws swyddogol o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a dylid ei thrin yn gyfartal â Saesneg. Cred ScoutsCymru ei bod yn ymarfer da i ddarparu gwasanaethau yn newis iaith ein haelodau a'r rhai hynny yr ydym yn ymwneud â nhw. Credwn ein bod yn dangos parch tuag at ein staff cyflogedig drwy annog a hwyluso defnydd o'u dewis iaith yn y gweithle.

Bydd ScoutsCymru yn sicrhau ein bod yn gwneud cynnydd parhaus i gyflawni'r uchelgais hwn, ac mae'r Polisi Iaith hwn yn nodi ein hymrwymadau cyfredol ynghylch defnyddio'r Gymraeg, a phan fo'n briodol, yn gosod targedau, i'n helpu i ddatblygu'n defnydd o'r Gymraeg.

Dylid dehongli cwmpas ein hymrwymadau yn y polisi hwn yn rhesymol – maen nhw wedi eu cyfyngu i weithgareddau a gwasanaethau yng Nghymru neu sy'n cael eu darparu i bobl sy'n byw yng Nghymru, ac wedi eu cyfyngu i weithgareddau a gwasanaethau y gallwn ni eu rheoli neu ddylanwadu arnynt.

Cyfeiriwch unrhyw sylwadau neu gwynion ynglŷn â'r polisi hwn at:

Pencadlys ScoutsCymru  
Yr Hen Ysgol  
Stryd y Gwin  
Llanilltud Fawr  
CF61 1RZ

## Introduction

ScoutsCymru acknowledge the fact that under the Welsh Language (Wales) Measure 2011 the Welsh language has official status, and should be treated no less favourably than the English language. ScoutsCymru believe that it is good practice to provide services in the language of choice of our members and those who we relate to. We also believe that it shows respect to our employed staff to encourage and facilitate the use of their chosen language in the workplace.

ScoutsCymru will ensure that we make constant progress towards achieving this ambition, and this Welsh Language Policy sets out our current commitments in relation to using Welsh and, where appropriate, sets targets to help us develop our use of Welsh.

The scope of our commitments in this policy should be interpreted reasonably - they are limited to activities and services in Wales or which are delivered to people living in Wales, and limited to activities and services which we can control or influence.

Please direct any comments or complaints about this policy to:

ScoutsCymru  
Headquarters  
The Old School  
Wine St  
Llantwit Major  
CF61 1RZ

## 1. Cyfathrebu Allanol

### 1.1 Wyneb yn wyneb

Nid oes gan Bencadlys ScoutsCymru dderbynfa galw heibio ac ychydig iawn o ymwelwyr sy'n cyrraedd heb ein rhybuddio o flaen llaw. Pan fo'n bosibl, gall ymwelwyr siarad ag aelod o staff/gwirfoddolwr Cymraeg os oes un ar gael.

### 1.2 Cyfathrebu dros y ffôn

Bydd pob aelod o staff a gwirfoddolwyr yn cyfarch yn ddwyieithog a byddant yn cael eu hyfforddi yn hyn o beth. Pan fydd gennym staff/gwirfoddolwyr Cymraeg, gellir trosglwyddo galwyr os dymunant gyfathrebu yn Gymraeg. Os na fydd staff/gwirfoddolwyr Cymraeg ar gael yna ni allwn drosglwyddo galwadau.

Bydd neges y peiriant ateb yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf.

### 1.3 Anfon llythyrau a negeseuon e-bost

Bydd llythyrau a negeseuon e-bost at aelodau yn newis iaith yr anfonwr a byddwn yn rhoi systemau ar waith i ymdrin â cheisiadau am ohebiaeth Gymraeg gan aelodau.

Bydd cyfathrebu allanol hefyd yn newis iaith yr anfonwr.

Bydd cyfathrebu ar gyfer ymgyrchoedd penodol yn ddwyieithog.

Bydd pob troednodyn e-bost yn nodi ein bod yn croesawu negeseuon e-bost yn y naill iaith neu'r llall.

### 1.4 Ateb llythyrau a negeseuon e-bost

Byddwn yn ateb pob gohebiaeth Gymraeg yn Gymraeg, gan geisio sicrhau na fyddai hyn yn achosi oedi. Mewn rhai achosion prin byddai oedi'n debygol pe bai angen gwasanaeth cyfieithydd proffesiynol.

Wrth gyfathrebu byddwn yn hysbysu ein bod yn derbyn gohebiaeth Gymraeg a Saesneg.

### 1.5 Datganiadau i'r Wasg

Fel arfer bydd pob datganiad a anfonir i'r wasg yn ddwyieithog.

### 1.6 Cyfweiliadau'r cyfryngau

## 1. External communication

### 1.1 Face to face

The ScoutsCymru Headquarters does not have a walk-in reception area and few visitors arrive without prior notice. Where possible, visitors will be able to talk to a Welsh speaking member of staff/volunteer if one is available.

### 1.2 Telephone Communications

All staff and volunteers will offer a bilingual greeting and be provided with training to do so. If we have Welsh speaking staff/volunteers available, callers can be transferred if they wish to communicate in Welsh. If no Welsh speaking staff member/volunteer is available, we are unable to transfer calls.

The voicemail facility on the telephone will be bilingual, with Welsh being the first language.

### 1.3 Sending Letters and Emails

Letters and emails to members will be in the language of choice of the sender and we will put systems in place to requests for Welsh medium correspondence from members.

External communications will also be in the language choice of the sender.

Communications that are for specific campaigns and projects will be sent bilingually.

All email footers will include the fact that we welcome emails in either language.

### 1.4 Responding to letters and email

We will respond in Welsh to any Welsh correspondence we receive, striving to ensure that this does not cause a delay. In some rare cases, there may be some delay if a professional translator is required.

We will advise on our communications that we accept Welsh and English correspondence.

### 1.5 Press Releases

Ordinarily all our press releases will be sent out bilingually.

### 1.6 Media Interviews

Fe wnawn ein gorau i drefnu cyfweiliadau Cymraeg i'r cyfryngau, gan dderbyn weithiau nad y siaradwr hwnnw fydd yr arbenigwr ar y pwnc.

We will do our best to provide media interviews in Welsh, accepting that sometimes this means the spokesperson will not be the subject matter expert.

## 2. Delwedd Gorfforaethol a Brandio

Parhawn i sicrhau ein bod yn trin y ddwy iaith yn gyfartal yn ein delwedd gorfforaethol

## 2. Corporate Image and Branding

We will continue to ensure that we treat both languages equally in our corporate image

## 3. Cyhoeddiadau a Chyhoeddusrwydd

### 3.1 Cyhoeddiadau

Parhawn i baratoi cyhoeddiadau dwyieithog wrth gyfathrebu'n allanol, yn enwedig cyhoeddiadau yn benodol ar gyfer Llywodraeth Cymru, cyrff statudol eraill, ysgolion a grwpiau ieuencid gwirfoddol eraill.

Byddwn yn cynyddu nifer y cyhoeddiadau dwyieithog copi caled pan fyddant yn cael eu datblygu.

### 3.1 Publications

We will continue to prepare bilingual publications for our external communications, especially on publications focussed at Welsh Government, other statutory bodies, schools and other voluntary youth groups.

We will increase the number of hard copy bilingual publications we prepare as and when they are developed.

### 3.2 Marchnata

Paratwir y canlynol yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal: cardiau busnes, papur swyddogol, baneri hysbysebu, troednodiadau e-bost, deunydd marchnata, ffurflenni cofrestru, adroddiadau blynyddol, ffurflenni bwcio, arwyddion ayyb.

Prin yw'r llyfrau a'r llyfrynau printiedig sydd gennym ond yn y dyfodol bydd llyfrau a llyfrynau yn ddwyieithog.

### 3.2 Marketing

Business cards, headed paper, advertising banners, email footers, marketing material, registration forms, annual reports, booking forms, signage etc. are all prepared bilingually, where Welsh and English are equal.

We have few printed books and brochures but all future printing of books and brochures will be fully bilingual.

## 4. Gwefan a Chyfryngau Cymdeithasol

### 4.1 Gwefan

Bydd tudalennau statig y wefan yn gwbl ddwyieithog ac yn cael eu diweddarau'n rheolaidd gan Safonwyr. Bydd dolenni i flogiau, Twitter, Facebook ayyb ar y wefan yn iaith y cyfrannydd/anfonwr a bydd y wefan yn nodi ein

## 4. Website and Social Media

### 4.1 Website

The static pages of the website will be fully bilingual with the pages being updated regularly by Moderators. Links to blogs, twitter, facebook, etc. on the website will be in the language of the sender/contributor and the website will include

bod yn derbyn gohebiaeth ar y cyfryngau cymdeithasol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

#### **4.2 Cyfryngau Cymdeithasol**

Byddwn yn cynyddu ein defnydd o'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol ac yn annog staff/gwirfoddolwyr Cymraeg i roi negeseuon yn Gymraeg.

### **5. Cyfarfodydd cyhoeddus a digwyddiadau**

#### **5.1 Dewis iaith mynychwyr**

Yn ystod digwyddiadau ScoutsCymru, byddwn yn hysbysu bod croeso i unigolion gyfrannu yn Gymraeg pe dymument wneud hynny. Ni allwn ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

#### **5.2 Rhaglen Ddigwyddiadau/Amserlen**

Anogwn westeion Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod eu hareithiau ond ni allwn ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

#### **5.3 Cynllunio a Pharatoi Digwyddiadau**

Bydd gwahoddiadau, deunydd marchnata, ffurflenni cofrestru ac adborth, arwyddion a threfniadau gweinyddu tebyg yn gwbl ddwyieithog.

Bydd cyhoeddiadau a baratowyd gan ScoutsCymru i'w defnyddio yng Nghymru yn ddwyieithog. Bydd cyhoeddiadau gan Scouts UK yn eu dewis iaith.

Gall areithiau a chyflwyniadau gynnwys rhywfaint o Gymraeg ond ni chynigir cyfieithiad.

### **6. Gwasanaethau, mentrau ac ymgyrchoedd newydd**

#### **6.1 Gwasanaethau, ymgyrchoedd a pholisïau newydd**

Byddwn bob tro yn rhoi ystyriaeth i'r Gymraeg yn unol â'r cynllun gweithredu hwn wrth gynllunio unrhyw brosiect, ymgyrch neu fenter newydd. Caiff penderfyniadau eu cofnodi a byddant yn rhan o'r broses adborth/adolygu.

advice that we accept social media communications in Welsh and English.

#### **4.2 Social Media**

We will increase our use of the Welsh language on social media and will encourage Welsh-speaking staff/volunteers to post messages in Welsh.

### **5. Public meetings and events**

#### **5.1 Attendees' language choice**

At ScoutsCymru events, we will note that individuals are welcome to contribute in Welsh if they wish to do so. We are unable to provide simultaneous translation.

#### **5.2 Events Programme/Schedule**

We will encourage any Welsh-speaking guest speakers to use the language during their speech but we are unable to provide simultaneous translation.

#### **5.3 Events Planning and Preparation**

Invitations, marketing materials, registration and feedback forms, signage and similar administrative arrangements will be fully bilingual.

Publications prepared by ScoutsCymru for use in Wales will be bilingual. Publications from Scouts UK will be in the language of their choice.

Speeches and presentations may include some Welsh but no translation will be offered.

### **6. New services, initiatives and campaigns**

#### **6.1 New services, campaigns and policies**

We will always give consideration to the Welsh language in accordance with this action plan when planning any new project, campaign or initiative.

Decisions will be minuted and recorded and be part of the feedback/review process.

## 6.2. Cynnig gwasanaethau

Anogwn staff a gwirfoddolwyr Cymraeg i gynnig gwasanaethau Cymraeg i aelodau ledled Cymru.

## 6.3 Darparu gwasanaeth

Ceisiwn ateb ceisiadau am wasanaethau Cymraeg yn dilyn ystyriaethau ariannol. Ni allwn arallgyfeirio adnoddau i gyflawni'r safon hon a dibynnwn ar sgiliau iaith staff a gwirfoddolwyr.

## 6.4 Darparu cyrsiau hyfforddi

Darparwn hyfforddiant mewnol yn Saesneg ond anogwn yr hyfforddwr a'r rhai hynny sy'n derbyn hyfforddiant i ddefnyddio'r Gymraeg os yw'n briodol.

## 6.5 Llinellau cymorth

Nid yw hwn yn berthnasol gan nad yw ScoutsCymru yn gweithredu llinell gymorth.

## 6.6 Iaith gwaith

Bydd eitemau i'w gwneud yn hawdd adnabod siaradwyr Cymraeg ar gael i staff a Gwirfoddolwyr Cenedlaethol ScoutsCymru sy'n dymuno eu defnyddio, yn arbennig y bathodyn 'Cymraeg'.

## 6.7 Gweithio gyda chontractwyr a phartneriaid

Hysbyswn unrhyw gontractwyr neu bartneriaid ein bod wedi ymrwymo i Gynllun Hyrwyddo Comisiynydd y Gymraeg. Er hynny gwobrwyir tendrau ar sail gwerth gorau ac nid ar sail y gallu i siarad iaith.

## 6.2. Offering services

We will encourage Welsh-speaking volunteer and staff members to offer a Welsh language service to members across Wales

## 6.3 Service delivery

We will strive to meet users' requests for Welsh language services in line with financial considerations. We are unable to divert resources to meet this standard and rely on staff and volunteers' language skills.

## 6.4 Providing training courses

We will provide internal training through the medium of English but encourage the trainer and attendees to use Welsh if appropriate.

## 6.5 Helplines

This is not applicable as ScoutsCymru does not operate a helpline.

## 6.6 Working Welsh

Items to ensure those able to speak Welsh are easily identifiable will be available to staff and ScoutsCymru National Volunteers who wish to use them, in particular the 'Cymraeg' badge.

## 6.7 Working with contractors and partners

We will inform any contractors or partners that we have committed to the Welsh Language Commissioner's Promotion Scheme. However, tenders will be awarded on the basis of best value and not on language abilities.

# 7. Staff a Gwirfoddolwyr ScoutsCymru

## 7.1 Recriwtio Staff/Gwirfoddolwyr

Nodwn fod siarad Cymraeg yn sgil "dymunol" wrth recriwtio staff/gwirfoddolwyr ar gyfer ScoutsCymru. Byddwn yn asesu a yw'r Gymraeg yn sgil hanfodol ar gyfer rhai swyddi gan nodi pa

# 7. Staff and Volunteers at ScoutsCymru

## 7.1 Staff/Volunteer recruitment

We will note that the Welsh language is a "desired" skill when recruiting staff/volunteers to ScoutsCymru. We will assess whether the Welsh language is an essential skill for some posts, noting

sgiliau Cymraeg sydd eu hangen er enghraifft, llafar neu ysgrifenedig.

### **7.2 Hysbysebu Swyddi Gwag**

Hysbysebwn bob swydd yn ddwyieithog.

### **7.3 Ymwybyddiaeth o iaith**

Bydd y pecyn gwybodaeth a roir i staff/gwirfoddolwyr pan fyddant yn dechrau gweithio/gwirfoddoli yn cyfeirio at wasanaethau Cymraeg.

### **7.4 Sgiliau iaith**

Byddwn yn creu cofnod llawn o sgiliau iaith staff/gwirfoddolwyr sef sgiliau siarad, darllen ac ysgrifennu. Caiff hwn ei ddiweddarau'n flynyddol.

### **7.5 Dysgu a defnyddio'r Gymraeg**

Ceisiwn greu awyrgylch yn y gweithle sy'n annog staff a gwirfoddolwyr i ddefnyddio'r Gymraeg. Cyflawnir hyn drwy annog y rhai sy'n siarad Cymraeg i wneud defnydd llawn o'u sgiliau iaith. Hefyd, byddwn yn rhoi gwybod i staff a gwirfoddolwyr am adnoddau megis Cysill a all eu helpu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

which Welsh language skills are required e.g. oral, written.

### **7.2 Advertising Vacancies**

We will advertise all posts bilingually.

### **7.3 Language Awareness**

The information pack provided to staff/volunteers at the beginning of their employment/volunteering will refer to Welsh language services.

### **7.4 Language Skills**

We will create a full record of staff/volunteer language skills according to speaking, reading and writing skills. This will be updated annually.

### **7.5 Learning and using the Welsh language**

We will strive to create a workplace environment which encourages staff and volunteers to use the Welsh language. This will be achieved by encouraging Welsh speakers to make full use of their language skills. Further, we will inform staff and volunteers about resources such as Cysill which can help them to use Welsh in the workplace.